

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr**

**Practis Deintyddol Cei  
Connah Cyf**

3 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	7
	Profiad y Claf.....	7
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .....	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ym Mhractis Deintyddol Cei Connah yn 107a Stryd Fawr, Cei Connah, Sir y Fflint, CH5 4DF, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 3 Mehefin 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.<sup>1</sup> Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>2</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.<sup>3</sup> Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Cei Connah Cyf yn darparu gwasanaethau ar gyfer rhwng 2,000 a 3,000 o gleifion yng Nghei Connah ac yn ardal gyfagos Sir y Fflint a ffin Swydd Gaer. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Practis Deintyddol Cei Connah yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un deintydd galwedigaethol dan hyfforddiant, dau hylenydd deintyddol (y mae un ohonynt hefyd yn therapydd deintyddol), pedair nyrs ddeintyddol, tri aelod o staff derbynfa, a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau deintyddol y GIG i blant sy'n 18 oed neu'n iau ac i oedolion sy'n 65 oed neu'n hŷn
- Triniaeth ddeintyddol breifat ar gyfer holl grwpiau oedran
- Deintyddiaeth gosmetig
- Orthodonteg
- Llawdriniaethau'r geg
- Hylendid deintyddol/gwasanaethau therapydd

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis Deintyddol Cei Connah Cyf yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Gwnaeth 20 o gleifion ymateb i holiadur AGIC, gan nodi eu bod yn hapus â'r gwasanaethau yr oeddent wedi'u derbyn, eu bod yn teimlo bod croeso iddynt gan dîm y practis, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Ychwanegodd 16 o'r cleifion sylwadau canmoliaethus eraill ynghlŷn â'r staff a'r gwasanaethau a dderbyniwyd; felly, ar y cyfan, roeddent yn dangos bodlonrwydd mawr. Roedd yr wybodaeth ysgrifenedig i gleifion ynghylch holl agweddau'r gwasanaeth yn dda.

Yn gyffredinol, gwelsom fod yr arfer clinigol a chyflenwad y driniaeth yn cydymffurfio â rheoliadau a safonau a bod systemau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi hyn. Fodd bynnag, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella mewn perthynas â'r cyfleusterau a phrosesau dadheintio yn un o'r ystafelloedd triniaeth bach. Yn y cyfamser, mae AGIC wedi derbyn digon o sicrwydd bod proses ddadheintio amgen, mwy diogel, wedi cael ei rhoi ar waith. Mae AGIC yn rhoi camau dilynol ar waith hefyd ynghylch cynlluniau hirdymor y practis ar gyfer gwella'r cyfleusterau dadheintio yn gyffredinol.

Cyflwynwyd system gyfrifiadurol newydd yn ystod y 12–18 mis diwethaf. Gwelsom fod tîm y practis wedi addasu'n dda i gynnal a chadw cofnodion electronig a bod cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau'n foddhaol. Gwnaethom argymhell y gellir gwella dulliau cyfathrebu mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r systemau monitro a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod hyn yn cael ei ategu gan y systemau a'r gweithdrefnau boddhaol a oedd ar waith. Roedd polisïau'r practis yn unigryw i'r practis, ond roeddent hefyd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Rydym wedi cynnwys argymhellion ar sut y gallai'r polisïau gael eu symleiddio mewn rhai achosion.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn weithwyr hirdymor, ac yn ôl yr adborth a gafwyd wrth y cleifion yn ogystal â'n harsylwadau cyffredinol ni yn ystod yr arolygiad, roedd tystiolaeth eu bod wedi'u hymrwymo i ddarparu safon uchel o wasanaeth. Gwnaethom gynghori'r practis i wella safon y cofnodion a gymerwyd ar ôl cyfarfodydd tîm, a ddylent bob amser gynnwys y dyddiad y cawsant eu cynnal a, lle bo'n briodol, arddangos dysgu wrth drafodaethau.

Gwnaethom ganfod bod yr amgylchedd yn addas i'r diben, yn lân, ac yn gyffredinol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwnaed addasiadau rhesymol i wneud y practis yn hygyrch i bobl sydd ag anableddau. Fodd bynnag, roedd tŷ bach y cleifion ar y llawr cyntaf ac felly nid oedd yn hygyrch ar gyfer y sawl nad oedd yn gallu defnyddio'r grisiau. Roedd hyn wedi'i nodi yn yr wybodaeth ysgrifenedig a oedd ar gael i'r cleifion.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Gwnaeth 20 o gleifion ymateb i holiadur AGIC, gan nodi eu bod yn hapus â'r gwasanaethau yr oeddent wedi'u derbyn, eu bod yn teimlo bod croeso iddynt gan dîm y practis, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Ychwanegodd 16 o'r cleifion sylwadau canmoliaethus eraill ynglŷn â'r staff a'r gwasanaethau a dderbyniwyd; felly, ar y cyfan, roeddent yn dangos bodlonrwydd mawr. Roedd yr wybodaeth ysgrifenedig i gleifion ynghylch holl agweddau'r gwasanaeth yn dda.**

Roedd gwybodaeth ar gael yn rhwydd i gleifion yn adeilad y practis ac ar ei wefan, ac roedd hon wedi'i llunio a'i fformatio'n dda ac yn unol ag egwyddorion hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd yr wybodaeth a welsom yn cynnwys prisiau ar gyfer gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG, y weithdrefn gwyno, a thafleuni gwybodaeth am iechyd y geg.

Dyweddodd un allan o 20 o gleifion ei fod wedi profi oedi wrth gael ei weld ar ddiwrnod ei apwyntiad, gan ychwanegu mai ar rai adegau yn unig yr oedd oediadau, a bod rheswm yn cael ei roi bob amser dros hynny. Ac eithrio dau o bobl, roedd yr holl gleifion yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau, ac roedd mwyafrif y cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn. Ymhlith y pump o gleifion a wnaeth nodi nad oeddent yn gwybod sut i gyflwyno cwyn, gwnaeth dau ohonynt nodi nad oeddent erioed wedi cael rheswm i gwyno.

Rhoddwyd cyfleoedd i'r cleifion ddarparu adborth am y gwasanaethau. Gwnaethom edrych ar arolygon yr oedd y practis wedi'u dosbarthu yn ystod y 18 mis diwethaf. Cwblhawyd adroddiad o'r canfyddiadau, ac roedd hwn yn cynnwys y camau gweithredu dilynol a gymerwyd. Roedd hyn yn dangos bod y practis yn rhoi sylw dyledus i farn y cleifion.

Roedd mwyafrif y cleifion a wnaeth ymateb i holiadur AGIC wedi'u cofrestru yn y practis ers blynyddoedd lawer, gan gynnwys deg a oedd wedi'u cofrestru yno ers rhwng 25 a 40 o flynyddoedd. Gwnaeth 16 o gleifion sylwadau cadarnhaol iawn ynghylch y gwasanaeth, ond roeddent, yn anffodus, yn rhy hir i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, roedd yr holl sylwadau dienw hyn wedi'u rhannu â thîm y practis, ac mae sampl bach ohonynt wedi'u cynnwys isod:

*"Rydw i'n glaf nerfus, ond mae'r staff yn wych. Rwy'n hapus iawn fy mod i wedi newid deintydd!"*



## **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal**

**Yn gyffredinol, gwelsom fod yr arfer clinigol a chyflenwad y driniaeth yn cydymffurfio â rheoliadau a safonau a bod systemau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi hyn. Fodd bynnag, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella mewn perthynas â'r cyfleusterau a phrosesau dadheintio yn un o'r ystafelloedd triniaeth bach. Yn y cyfamser, mae AGIC wedi derbyn digon o sicrwydd bod proses ddadheintio amgen, mwy diogel, wedi cael ei rhoi ar waith. Mae AGIC yn rhoi camau dilynol ar waith hefyd ynghylch cynlluniau hirdymor y practis ar gyfer gwella'r cyfleusterau dadheintio yn gyffredinol.**

**Cyflwynwyd system gyfrifiadurol newydd yn ystod y 12-18 mis diwethaf. Gwelsom fod tîm y practis wedi addasu'n dda i gynnal a chadw cofnodion electronig a bod cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau'n foddhaol. Gwnaethom argymhell y gellir gwella dulliau cyfathrebu mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r systemau monitro a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar hyn o bryd.**

Gwnaethom ystyried yr offer a dogfennaeth radiograffeg (pelydr-X) yn y practis a gweld eu bod yn foddhaol. Roedd tystiolaeth ddogfennol bod systemau ar waith, gan gynnwys archwiliadau o Belydrau-X, i fonitro a chynnal a chadw'r offer a ddefnyddir. Gwelsom fod gan y deintyddion hyfforddiant cyfredol fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Roedd gan y staff fynediad at offer dadebru a meddyginiaeth pe bai argyfwng yn y practis. Gwelsom fod y rhain o fewn eu dyddiadau dod i ben a'u bod yn cael eu monitro'n rheolaidd i wirio pryd roedd angen gwaredu arnynt yn ddiogel a/neu brynu rhai newydd.

Roedd contractau ar waith ar gyfer trin a gwaredu â gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu ym magiau a biniau o'r lliw cywir, ac roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd y system ddiogel ar waith ar gyfer gwaredu ar nodwyddau, gan leihau'r risg felly o anafiadau i staff gan eitemau miniog.

Yn 2009, gwnaed cynlluniau ar gyfer creu ystafell ddadheintio neilltuedig (at ddibenion glanhau a sterileiddio offer deintyddol) yn y practis, yn unol â'r argymelliadau a nodwyd yn nogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sy'n cynnwys canllawiau ar ddadheintio. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau hyn wedi cael eu rhoi ar waith, a gwelsom fod y broses ddadheintio yn cael ei chynnal mewn ystafelloedd triniaeth unigol ac yn ystod sesiynau clinigol. Roedd un o'r ystafelloedd triniaeth yn benodol o fach, ac felly roedd y

risg o groes-heintio wedi'i chynnyddu oherwydd y prinder lle i wahanu'r offer glân a'r offer brwnt yn ddiogel, a'r ffaith bod yr ardal ddadheintio mor agos at yr ardal driniaeth. O ganlyniad, cyflwynodd AGIC llythyr sicrwydd ar unwaith a chynllun gwella. Yn y cyfamser, mae proses arall, fwy diogel wedi cael ei rhoi ar waith, ac o ganlyniad mae AGIC wedi derbyn sicrwydd digonol bod y risg uniongyrchol wedi cael ei lleihau.

Mewn ystafell driniaeth arall, roedd yr offer yn cael eu glanhau yn agos at yr ardal driniaeth, ac roedd hyn eto yn cynyddu'r risg i'r staff a'r cleifion pe bai arwynebedd yr ystafell driniaeth yn cael ei halogi. Cytunodd y practis i gymryd camau gweithredu ar unwaith i symud y bath uwchsonig (ar gyfer glanhau offer) a'r awtoclaf (uned sterileiddio) i ffwrdd oddi wrth yr ardal driniaeth. Nid oedd yr un o'r ystafelloedd triniaeth yn cynnwys sinc at ddibenion ymolchi dwylo'n unig, a sinc ar wahân ar gyfer glanhau a rinsio offer, yn unol â'r canllawiau uchod a geir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Fel rhan o'r ymateb i'r llythyr sicrwydd ar unwaith, gwnaeth y practis hysbysu AGIC eu bod yn archwilio dichonoldeb adeiladu ystafell ddadheintio ar wahân.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC ynglŷn â'r cynlluniau a'r amserlen i greu ystafell ddadheintio newydd, neu, os nad yw hyn yn bosibl, y camau sy'n cael eu cymryd tuag at fodloni canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, er mwyn gwella'r broses ddadheintio ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth.***

Ar y cyfan, gwelsom fod pob ystafell driniaeth mewn cyflwr da a'u bod yn cynnwys digon o offer. Fel rhan o ddatblygiadau'r dyfodol, byddem yn cynghori'r practis i ystyried gosod lloriau wedi'u selio, i atal llwch neu faw rhag cronni rhwng y llawr a'r waliau. Fodd bynnag, roedd pob ardal a welsom yn ystod yr arolygiad yn lân.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 15 o gleifion, gan samplu pedwar cofnod a gafodd eu cwblhau gan dri deintydd, ac roedd y rhain yn foddhaol. Gwnaethom edrych hefyd ar dri chofnod a gafodd eu cwblhau gan y deintydd galwedigaethol dan hyfforddiant, ac roedd y rhain yn rhagorol. Roedd pob un o'r cofnodion yn gyflawn ac yn cynnwys, er enghraifft, y diagnosis a'r trafodaethau am y driniaeth a'r penderfyniadau a wnaed.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethom nodi bod bylchau cyfathrebu rhyngddynt o ran yr wybodaeth a oedd yn cael ei chadw ar y cyfrifiadur. Er enghraifft, nid oedd un o'r deintyddion yn ymwybodol o'r systemau archwilio na monitro a oedd ar waith, ac nid oedd deintydd arall yn ymwybodol bod

cynlluniau triniaeth cleifion bellach yn cael eu sganio i'w rhoi ar y cyfrifiadur. Felly, dylai'r practis ystyried sut y gellir gwella dulliau cyfathrebu er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybod am y gweithdrefnau a'r systemau electronig newydd sydd ar waith.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod hyn yn cael ei ategu gan y systemau a'r gweithdrefnau boddhaol a oedd ar waith. Roedd polisïau'r practis yn unigryw i'r practis, ond roeddent hefyd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Rydym wedi cynnwys argymhellion ar sut y gallai'r polisïau gael eu symleiddio mewn rhai achosion.**

**Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn weithwyr hirdymor, ac yn ôl yr adborth a gafwyd wrth y cleifion yn ogystal â'n harsylwadau cyffredinol ni yn ystod yr arolygiad, roedd tystiolaeth eu bod wedi'u hymrwymo i ddarparu safon uchel o wasanaeth. Gwnaethom gynghori'r practis hefyd i wella safon y cofnodion a gymerwyd ar ôl cyfarfodydd tîm, a ddylent bob amser gynnwys y dyddiad y cawsant eu cynnal a, lle bo'n briodol, arddangos dysgu wrth drafodaethau.**

Cafodd Practis Deintyddol Cei Connah ei sefydlu yn yr 1970au hwyr, a daeth i feddiant un o'r deintyddion, Mr Walton, yn 1993. Cawsom drafodaethau cynhwysfawr â Mr Walton a'i wraig, a hi yw rheolwr y practis sy'n goruchwyllo rhywfaint o'r tasgau busnes a'r tasgau gweinyddol. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o aelodau staff eraill, gan gynnwys deintyddion cyswllt, y deintydd galwedigaethol dan hyfforddiant, nyrsys deintyddol, a staff y dderbynfa. Ac eithrio'r deintydd galwedigaethol dan hyfforddiant, a nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant a ddechreuodd ar ei swydd ym mis Mawrth 2015, roedd mwyafrif y staff wedi bod yn gweithio yn y practis am nifer o flynyddoedd, ac roedd hyn yn fuddiol wrth sicrhau dilyniant o ran gofal deintyddol.

Gwelsom fod prosesau effeithiol ar waith i fonitro cyrhaeddiad staff drwy gyfrwng datblygiad proffesiynol parhaus ac arfarniadau. Gwnaethom edrych ar sampl o dystysgrifau hyfforddiant a thempled arfarniad staff, a oedd yn cynnwys cynllun datblygiad personol blynyddol. Roedd un o'r deintyddion cyswllt wedi cofrestru'r practis â "Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd" Deoniaeth Cymru, sy'n darparu dulliau datblygu practis ar gyfer timau deintyddol. Roedd y practis hefyd wedi ennill dyfarniad efydd "Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd" GIG Cymru.

Roedd polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu teilwra i'r practis, ond hefyd, lle bo'n berthnasol, roeddent yn cyfeirio at y deddfwriaethau a'r canllawiau priodol. Roedd rhywfaint o'r polisïau'n gryno, ac er eu bod wedi'u hategu gan ganllawiau ffurfiol eraill, gwnaethom awgrymu y gellid ychwanegu atynt, i arbed staff rhag chwilio am yr wybodaeth. Roedd rhai o'r meysydd wedi'u dyblygu, neu nid oeddent yn dilyn trefn resymegol; roedd gan rai polisïau a welsom ddyddiad fersiwn ac roeddent wedi cael eu llofnodi gan staff i ddangos eu bod

wedi eu deall. Oherwydd anghysondebau yn rhywfaint o'r polisiau, gwnaethom awgrymu y gallent gael eu hadolygu a'u symleiddio.

Gwnaethom edrych ar gofnodion mwyaf cyfredol y cyfarfodydd tîm, a oedd wedi'u hysgrifennu â llaw. Nid oedd y cofnodion bob amser yn cynnwys y dyddiad, ac weithiau roedd yn anodd gweld ble roedd un cyfarfod wedi dod i ben a lle roedd y nesaf wedi dechrau. Roedd y nodiadau bras yn annigonol i ddangos dysgu wrth y trafodaethau, ac felly fe wnaethom gynghori'r practis i wella eu dull cyffredinol o gymryd cofnodion.

Wrth ystyried y weithdrefn gwyno a'r ffeil cwynion, gwelsom fod systemau cadarn ar waith i ymateb i'r rhain. Fodd bynnag, roedd un weithdrefn yn nodi y byddai cwynion yn cael eu cydnabod ymhen pum niwrnod, tra bod y daflen gwynion yn nodi dau ddiwrnod, sy'n unol â threfniadau "Gweithio i Wella" y GIG ar gyfer cwynion ynghylch gwasanaethau'r GIG. Yn un o'r gweithdrefnau, nid oedd manylion cyswllt AGIC yn gyfredol, ond roeddent yn gywir mewn dogfen arall.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r gweithdrefnau cwyno gael eu hadolygu er mwyn gwirio eu cysondeb a'u cywirdeb. Yn hyn o beth, dylid ystyried trefniadau Gweithio i Wella'r GIG (ar gyfer cleifion y GIG) a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (ar gyfer cleifion preifat). Dylid diweddarau manylion cyswllt AGIC.***

Dim ond ambell gŵyn a dderbyniwyd gan y practis, ac roedd tystiolaeth bod y rhain wedi cael eu cymryd o ddifrif. Gwelsom fod y cwynion wedi cael eu cydnabod ar yr un diwrnod neu'n ystod y diwrnod canlynol, a hefyd eu bod wedi cael eu hymchwilio iddynt yn brydlon a'u datrys. Roedd y cleifion wedi cael eu hysbysu'n ysgrifenedig ynghylch y canlyniadau a'r camau gweithredu dilynol.

Gwelsom dystiolaeth ddogfennol i ddangos bod gan y deintyddion wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i ddyddio ymhen y tair blynedd ddiwethaf, yn unol â'r rheoliadau ynghylch deintyddiaeth breifat. Nid yw'n ofynnol i staff eraill y practis feddu ar wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y deintydd sy'n cyflogi yn ymgymryd â gwiriadau i sicrhau addasrwydd staff ar gyfer cyflogaeth. Gwnaethom drafod hyn â'r practis, a gwelsom fod y gwiriadau recriwtio wedi cael eu casglu ar gyfer y ddau aelod o staff mwyaf diweddar a gyflogwyd. Fodd bynnag, roedd mwyafrif y tîm yn aelodau staff hirsefydlog, ac nid oedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar eu cyfer. Hefyd, nid oedd ffeil staff yn cael ei chadw ar gyfer rheolwr y practis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Gwnaethom argymell y dylai'r practis gasglu'r gwiriadau recriwtio a chyflogaeth gyfnodol angenrheidiol ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis, gan gynnwys rheolwr y practis.***

Gwnaethom drafod â'r aelod o staff a gyflogwyd yn fwyaf diweddar, ac fe wnaeth hi gadarnhau ei bod wedi cael croeso gan dîm y staff a'i bod wedi derbyn llawer o gefnogaeth ganddynt. Gwelsom fod rhaglen sefydlu wedi bod ar waith ac wedi'i chwblhau yn unol â chynnydd yr aelod o staff.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwnaethom ganfod bod yr amgylchedd yn addas i'r diben, yn lân, ac yn gyffredinol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwnaed addasiadau rhesymol i wneud y practis yn hygyrch i bobl sydd ag anableddau. Fodd bynnag, roedd tŷ bach y cleifion ar y llawr cyntaf ac felly nid oedd yn hygyrch ar gyfer y sawl nad oedd yn gallu defnyddio'r grisiau. Roedd hyn wedi'i nodi yn yr wybodaeth ysgrifenedig a oedd ar gael i'r cleifion.**

Mae Practis Deintyddol Cei Connah Cyf wedi'i sefydlu mewn adeilad masnachol ar ddiwedd teras ar gyrion canol y dref. Nid oes maes parcio neilltuedig ar gael. Fodd bynnag, gellir parcio am ddim mewn maes parcio cyhoeddus sy'n gyfagos â'r adeilad.

Mae un gris wrth fynediad y safle, ac mae ramp symudol ar gael ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Gwelsom gloch y tu allan i'r ddeintyddfa ac arwydd i'w ganu er mwyn cael cymorth pe bai angen. Mae un ystafell driniaeth ar y llawr daear, ac mae'n cael ei defnyddio ar gyfer cleifion nad yw'n gallu dringo'r grisiau. Roedd y practis ar agor ar ddiwrnod yr arolygiad, ac fe wnaeth yr hylenydd, sydd fel arfer yn gweithio mewn ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf, symud i'r ystafell driniaeth ar y llawr daear er mwyn trin ei chleifion yn ystod y prynhawn hwnnw.

Cawsom ein hysbysu bod ymgynghorydd anabledd wedi ymweld â'r practis yn y gorffennol, ac o ganlyniad, gosodwyd canllaw ychwanegol ar y grisiau a phrynwyd cadeiriau newydd er mwyn rhoi cymorth i bobl gyda'u symudedd ac wrth gael eu trosglwyddo. Roedd arwydd mawr a oedd yn nodi "Gwyliwch y gris" ac arwyddion rhybudd i'r un perwyl yn ardal aros y llawr cyntaf. Gwnaeth rheolwr y practis nodi bod angen i ymyl y gris gael ei ailosod, a chytunodd y byddai hyn yn cael ei wneud ar unwaith.

Roedd tair ystafell driniaeth a thŷ bach y cleifion ar y llawr cyntaf, felly nid oeddent yn hygyrch i'r cleifion hynny nad ydynt yn gallu dringo'r grisiau. Fodd bynnag, gwelsom fod nodyn ynghylch diffyg cyfleuster tŷ bach i bobl anabl wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis. Roedd gan y staff fynediad at dŷ bach ar wahân, swyddfa/cegin/ystafell rheolwr y practis wedi'u cyfuno, ac ystafell staff/storfa. Gwelsom fod cofnodion wedi'u storio'n ddiogel, naill ai mewn cypyrddau dan glo neu mewn ystafell storfa dan glo.

Mae gwasanaethau'r GIG yn cael eu darparu i blant, a gwelsom fod ystafell aros y llawr cyntaf yn cynnwys uned storio isel lle cedwir teganau plant, gemau a llyfrau. Gwnaethom edrych ar amserlen lanhau'r practis a gweld bod gwaith

glanhau ychwanegol yn cael ei wneud ar gyfer yr ardal hon er mwyn atal croeshalogi. Roedd hefyd teledu sgrin fflat yn y ddwy ystafell aros.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd yr adeilad yn edrych yn lân ac yn llachar, a dywedwyd wrthym fod y practis yn cyflogi glanhawraig i gynnal a chadw safonau hylendid a glanweithdra da. Fe'n hysbyswyd bod yr arwyddion “dim ysmegu” wedi cael eu symud cyn i'r gwaith addurno ddechrau yn ddiweddar, ac o ganlyniad roedd angen gosod arwyddion newydd.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, gwelwyd bod angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal, a Rheolaeth ac Arweinyddiaeth. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Cei Connah Cyf yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol Cei Connah Cyf, 107a Stryd Fawr,  
Cei Connah, Sir y Fflint, CH5 4DF**

**Dyddiad yr arolygiad: 3 Mehefin 2015**

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<b>Profiad y Claf</b>			
	Ddim yn berthnasol			
	<b>Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal</b>			
10	<b>Dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC ynglŷn â'r cynlluniau a'r amserlen i greu ystafell ddadheintio newydd, neu, os nad yw hyn yn bosibl, y camau sy'n cael eu cymryd tuag at fodloni canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru</b>	Mae camau ar unwaith eisoes wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ym mhob ystafell driniaeth cyn belled ag y bo modd.	Andria Walton	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p><b>01-05, er mwyn gwella'r broses ddadheintio ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth.</b></p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 2.4]</p>	<p>Ar ôl ystyried a thrafod, oherwydd oedran a threfn yr adeilad, penderfynwyd nad yw cynnal gwaith adeiladu i greu ystafell newydd yn ymarferol.</p> <p><u>Camau Pellach:</u> Rhaid i reolwr y practis gysylltu ag AGIC er mwyn holi ynghylch y posibilrwydd o symud yr awtoclafau y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth ac i mewn i'r ystafell "OPG". Felly fe fyddai'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu defnyddio i gwblhau gweithgareddau brwnt megis glanhau ac archwilio rhagarweiniol offer. Byddai'r ystafell OPG at ddibenion gweithgareddau glân, h.y. arolygu, sterileiddio a rhoi eitemau mewn bagiau.</p> <p>Os na ystyrir yr ystafell OPG yn addas, bydd sgriniau persbecs yn cael eu prynu ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth er mwyn gwahanu ardaloedd glân a budr yn gorfforol.</p> <p>Bydd arwyneb gwaith newydd yn cael ei osod yng nghornel ystafell driniaeth 3 er mwyn galluogi adleoli'r awtoclaf.</p>		<p>Awst 2015 – Hydref 2015</p>
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
12	<b>Dylai'r gweithdrefnau cwyno gael eu</b>	Bydd ein dogfennaeth, p'un yw'n ymwneud â	Andria Walton	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>hadolygu er mwyn gwirio eu cysondeb a'u cywirdeb. Yn hyn o beth, dylid ystyried trefniadau Gweithio i Wella'r GIG (ar gyfer cleifion y GIG) a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (ar gyfer cleifion preifat). Dylid diweddarau manylion cyswllt AGIC.</p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 6.3]</p>	<p>gwasanaethau'r GIG neu wasanaethau preifat, bellach yn nodi y bydd ymateb yn cael ei wneud ymhen 48 awr, ac mae manylion cyswllt AGIC eisoes wedi cael eu diwygio.</p>		
12	<p><b><i>Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gasglu'r gwiriadau recriwtio a chyflogaeth gyfnodol angenrheidiol ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis, gan gynnwys rheolwr y practis.</i></b></p> <p>[Safon Iechyd a Gofal 7.1]</p>	<p>Byddwn yn parhau i gasglu gwiriadau gwahardd ar bob aelod o staff newydd, ond wedi cwblhau asesiad risg, nid ydym yn ei weld yn angenrheidiol yn ystod y cam hwn i wneud cais ar gyfer gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer aelodau o staff presennol. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu hyn pan fydd angen diweddarau'r gwiriadau eraill.</p>	Andria Walton	Yn parhau
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
	Ddim yn berthnasol			

**Enw (llythrennau bras):** Andrew Walton

**Teitl:** Perchennog y Practis

**Dyddiad:** 13/07/2015 (ymateb wedi ei ddiweddarau 8 Awst 2015)